**<u>Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 6ed Fai 2025</u>**

1. **Croeso**
   Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd Jane Pierce.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y cynghorwyr :Rhian Evans-Hill, Idris Thomas ac Ellen George.

**Presennol**
Yn bresennol roedd Y Cadeirydd , a'r Cynghorwyr Phyllis Ellis, Elwyn Jones, Dawn Parry, Gareth Hughes, Gareth W Griffiths, Sasha Williams, ac ymunodd Emma Chappell yn rhithiol

Ni chafwyd presenoldeb, nac ymddiheuriad gan neb o'r cyhoedd eto eleni.

**2.Gweddi**
Rhoddwyd gair o weddi gan y clerc.

**3.Seddi Wag**
Mae yna 2 sedd wag o hyd yn Neiniolen. Y clerc i rannu templed i roi ar y cyfryngau cymdeithasol.

**4. Ethol Cadeirydd am y Flwyddyn 2025 - 2026**
Cynigwyd Gareth Hughes I fod yn gadeirydd

Gareth W Griffiths (1)        Phyllis Ellis (2)

Diolchwyd i Gareth Hughes am gymryd y cyfrifoldeb am y flwyddyn.

Gyda Chadeirydd etholedig yn y gadair, diolchwyd i'r Cynghorydd Jane Pierce am ei Gwaith fel Cadeirydd y ddwy flynedd ddiwethaf, a nododd y Cadeirydd ei fod yn falch o gymryd dyletswydd y swydd am y flwyddyn bresennol.

5. **Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2024 - 2025**

Cynigwyd y Cynghorydd Elwyn Jones.

Jane Pierce (1)        Gareth W Griffiths (2)

Diolchwyd I Elwyn am dderbyn.

Cadeirydd…………………………………

**6. I gadarnhau swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus**
Cytunwyd i barhau gyda'r pwyllgor sydd yn y swydd bresennol:
Dawn Parry, Elwyn Jones, Ellen George, Idris Thomas a Jane Pierce.

Gareth W Griffiths (1) Sasha Williams (2)

**7. I gadarnhau swyddogion gyda gofal am swydd y Clerc a Swyddog Ariannol**
Swyddogion fydd yn gofalu am swyddogaeth y clerc yn parhau fel y Cynghorwyr Gareth Griffiths, Phyllis Ellis a Rhian Evans-Hill

Gareth W Griffiths (1) Sasha Williams (2)

**8. I gadarnhau swyddogion Is bwyllgor Cyllid**
Cytunwyd I barhau gyda'r pwyllgor sydd ynn gyfrifol yn bresennol:
Gareth Griffiths, Gareth Hughes, Emma Chappell a Lowri James

**9. I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.**
Penderfynwyd fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

**10. I gadarnhau cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :**

**Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi** - Dawn Parry yn hapus i barhau
**Ysgol Gynradd Penisa'r-wau**n - Phyllis Ellis yn hapus i barhau
**Ysgol Gynradd Bethel** - Gareth Hughes yn cynrychioli'r Cyngor.
**Ysgol Rhiwlas** - Elwyn Jones I gadarnhau gan fod y cynrychiolydd presennol o Gyngor Pentir wedi ymddiswyddo.

**11. I gadarnhau cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru**

Mae croeso i unrhyw un wneud, ond llynedd bu'r clerc yn mynychu. Y clerc yn fodlon parhau.

**12. I gadarnhau cynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri**
Cynigiwyd fod Idris Thomas neu Rhian Evans-Hill yn parhau i gynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri'r tymor hwn. Y clerc i gysylltu i ofyn.

**13. Neuadd Rhiwlas**

Cytunodd Lowri Ann James I barhau yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y Neuadd.

Cadeirydd……………………………

**14. Adolygu Polisïau**

| | |
|---|---|
| Cofrestr Rheoli Risg | 02/05/2023 |
| Polisïau a Chanllawiau'r Cyngor | 19/06/2024 |
| Rheolau Ariannol 2025 Cyngor Cytmuned Llanddeiniolen | 10/01/2025 |
| Gweithdrefn Gwyno | 24/04/2023 |
| Polisïau Cyfryngau Cymdeithasol | 02/05/2023 |
| Datganiad Bio Amrywiaeth | 03/05/2024 |
| Polisi Ieithyddol | 04/02/2025 |
| Rheolau Sefydlog Cyngor Cymuned Llanddeiniolen | 19/06/2024 |
| Polisi Ceisiadau Ariannol | 12/02/2024 |

Daeth hyn a'r Cyfarfod Blynyddol i ben am eleni. Diolchwyd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Cadeirydd………………………………